Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

# Notifier+

## Derbynnydd Larwm Cludadwy

Canllaw Rhaglennu V 1.0




Mae'r Notifier+ yn dderbynnydd larwm cludadwy arloesol, wedi'i ddatblygu i wella effeithlonrwydd ac ymatebolrwydd mewn amgylcheddau gofal. Yn addas ar gyfer lleoliadau unigol a grŵp, gall gysylltu â hyd at 150 o ddyfeisiau. Mae hysbysiadau clir yn nodi'r rhybudd, gan alluogi gofalwyr i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.

Gan adeiladu ar swyddogaethau profedig megis gwefru diwifr, clonio, rhybuddion SOS a gallu dargyfeirio, mae'r Notifier+ yn cyflwyno mwy o nodweddion. Mae'r rhain yn cynnwys pellter gweithio well, opsiynau aml-iaith, gosodiadau ffenestr amser gwell, modd gosodwr, opsiwn i analluogi'r botwm, a diogelwch estynedig wedi'i ddiogelu gan PIN.

## Cynnwys

Nodweddion........ Tudalen 2
Beth sydd yn y bocs?........ Tudalen 2
Gwybodaeth Gyffredinol........ Tudalen 3
Ddewislen Gosodiadau........ Tudalen 5
Ddewislen Weinyddol........ Tudalen 6
Ddewislen Opsiynau........ Tudalen 8
Ddewislen Radio........ Tudalen 9
Cynnal a Chadw........ Tudalen 10
Datrys Problemau a Chwestiynau Cyffredin........ Tudalen 11
Manylebau///........ Tudalen 12

## Nodweddion

- **NEWYDD** Ystod ddiwifr well
- **NEWYDD** Opsiynau Aml-iaith
- **NEWYDD** Nodwedd Ffenestr Amser Gwell
- **NEWYDD** Diogelwch PIN ychwanegol i amddiffyn y ddewislen Gosodiadau
- **NEWYDD** Opsiwn i Analluogi’r Botwm I Ffwrdd/Ymlaen
- **NEWYDD** Modd Gosodwr
- **NEWYDD** Addasiad awtomatig ar gyfer amser haf ac arddangos diwrnod yr wythnos
- **NEWYDD** Rheolaeth Presenoldeb Awtomatig
- **NEWYDD** Rhybuddion Batri Isel Notifier+
- Gwefru diwifr
- Rhyngwyneb defnyddiwr modern, chwaethus
- Sgrin gyffwrdd lliw
- Gallu clonio dyfeisiau a gosodiadau yn ddiwifr i Notifier+ arall
- Opsiwn i ddargyfeirio i uned (neu Notifier arall)
- Nodwedd SOS i rybuddio Notifier neu uned arall
- Clirio galwad i Notifier arall
- Cefnogi hyd at 150 o ddyfeisiau
- Amddiffyniad rhif pin
- Opsiynau rhybuddio sain, dirgrynol a strôb
- Ddyfais hawdd ei glanhau, gwrth-ficrobaidd sydd yn gwrthsefyll dŵr
- Dangosydd statws gwefru a batri
- Nodwedd i wirio pellter gweithio dyfais
- Gweld a llwytho i fyny hanes rhybuddion
- Modd Safonol i ddefnydd 1:1 a Modd Uwch ar gyfer gosodiadau cymhleth

## Beth sydd yn y bocs?

- Notifier+
- Gorsaf Gwefru
- Cyflenwad Pŵer USB
- Stylus
- Cortyn Gwddf
- Clip Gwregys

## Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r Notifier+ yn gweithredu yn yr un modd dibynadwy â'r Notifier gwreiddiol, gan ddefnyddio'r un rhesymeg raglennu graidd a'r un profiad defnyddiwr. Mae mân welliannau i'r caledwedd wedi'u gwneud er mwyn gwella perfformiad. Drwy gydol y canllaw hwn, fe welwch fanylion am y diweddariadau hyn, ynghyd â dangosyddion clir yn nodi lle mae nodweddion wedi'u newid, eu gwella, neu'n newydd yn Notifier+.

### Sefydlu a Gwefru

1. Mewnosod y USB mini i gefn yr orsaf gwefru a'r plwg USB i'r cyflenwad pŵer. Mewnosod y cyflenwad pŵer USB i'r soced trydanol. Mi fydd y LED ambr ar yr orsaf gwefru yn goleuo, fflachio tair gwaith ag yn fuan wedyn, diffodd.
2. Rhowch y Notifier+ yn yr orsaf gwefru. O fewn eiliadau, mi fydd yna bîp ac mi fydd y statws gwefru yn newid o 'Ready' i 'Charging', wedyn mi fydd i fodd gorffwys, os mae'r Notifier+ ymlaen.
3. Pan mae'r batri yn isel, mi fydd yr Notifier+ angen 2.5 awr i wefru'n llawn. Os mae'r Notifier+ i ffwrdd, ni fydd yna hysbyswedd, ond mi fydd yn gwefru.
4. Dilynwch y canllaw yma am fwy o wybodaeth am sut i baru dyfeisiau i'r Notifier+ ag addasu'r gosodiadau i'ch dewis gofynnol.

**Pwysig:** Dylech osgoi caniatáu i'r Notifier+ ryddhau'r batri yn llawn gan y gallai hyn effeithio ar ei allu i ailwefru.
**Nodyn**: Mi fydd rhybuddion sydd yn cael eu gadael heb ymateb am amser, a nifer o rybuddion uchel yn amharu ar fywyd batri

### Ymlaen/I Ffwrdd & Modd Gorffwys

I droi'r Notifier+ ymlaen, pwyswch a dal lawr y botwm i ffwrdd/ymlaen am 6 eiliad. I droi'r Notifier+ i ffwrdd, pwyswch a dal lawr y botwm ymlaen/i ffwrdd am 6 eiliad yna dewiswch 'Yes' i gadarnhau diffodd y ddyfais. Pwyswch y botwm ymlaen/i ffwrdd i roi'r sgrin i mewn i fodd gorffwys, ag eto i'w ddeffro. Mi fydd yn Notifier+ yn mynd i fodd gorffwys yn awtomatig os na fydd y ddyfais wedi cal eu defnyddio o fewn yr amser oedi sgrin.Mae hefyd yn bosibl analluogi'r botwm ymlaen/diffodd (gweler y ddewislen Radio ar dudalen 9).

### Sgrin Gartref (heb rhybudd)

Mae'r sgrin gartref yn cynnwys, o'r top i'r gwaelod:

- Logo CAIR. Tapiwch hwn i droi'r sgrin wyneb i waered. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth ei wisgo gyda'r clip gwregys
- Statws gwefru. Bydd 'Ready' yn ymddangos os nad yw ar wefr. Bydd 'Low Battery' yn ymddangos os yw'r batri'n isel. Bydd 'Charging' yn ymddangos wrth wefru
- Cryfder y batri
- Activity On (os yw Activity wedi'i droi ymlaen. Gweler y ddewislen Opsiynau ar dudalen 8)
- Dyddiad a diwrnod presennol (gellir addasu hyn yn y ddewislen Gosodiadau. Gweler tudalen 5)
- Amser presennol (gellir addasu hyn yn y ddewislen Gosodiadau. Gweler tudalen 5) wedi'i ddilyn gan GMT/BST (Saesneg a Chymraeg yn unig)
- Cloc larwm (dim ond os yw wedi'i droi ymlaen yn y ddewislen Gosodiadau y bydd yn ymddangos. Gweler tudalen 5)
- Botwm Mute Off/On (os yw Mute wedi'i droi ymlaen, bydd y Notifier+ yn anwybyddu pob rhybudd. Bydd y botwm hwn ond yn ymddangos os yw Mute wedi'i alluogi. Gweler tudalen 7)
- Away Mode On (dim ond os yw wedi'i alluogi a'i droi ymlaen y bydd yn ymddangos. Gweler tudalen 9)
- Botwm SOS (dim ond os yw wedi'i droi ymlaen yn y ddewislen Radio y bydd yn ymddangos. Gweler tudalen 10)
- Rhybuddion (dim ond os yw rhybuddion yn cael eu gohirio wrth ddefnyddio Advanced Mode y bydd yn ymddangos. Gweler tudalen 8)
- Botwm Gosodiadau (mae hwn yn mynd i mewn i'r ddewislen Gosodiadau. Gweler tudalen 5)

### Sgrin Gartref (hefo rhybudd)

- Pan fydd ddyfais sydd wedi eu paru yn actifadu, mae'r sgrin gartref yn cynnwys, o'r top i'r gwaelod:
- Cryfder signal y ddyfais
- ID y ddyfais sydd wedi eu hactifadu
- Cryfder batri'r ddyfais
- Enw a lleoliad y ddyfais
- Math o ddyfais
- Botwm 'OK'. Os mae Modd Uwch ymlaen, mi fydd nifer o fotymau yn ymddangos. Mae'r rhain wedi eu hesbonio isod ar dudalen 8

Mae'r Notifier+ wedi'i gynllunio i ddelio â gweithrediadau o sawl dyfais trwy gynnal rhestr o hyd at 32 o rybuddion. Mae'r rhybudd diweddaraf yn cael ei harddangos ar y sgrin. Wrth gydnabod y rhybudd presennol, mae'r Notifier+ yn cyflwyno rhestr o unrhyw rybuddion gweithredol sydd ar ôl yn y rhestr. Os oes rybuddion sydd ddim wedi'u cydnabod, mae botwm 'Alerts' yn dod i'r golwg ar y sgrin gartref, gan gynnig mynediad cyflym i'r rhybuddion hyn. Unwaith y bydd pob rhybudd wedi'i gydnabod, mae'r Notifier+ yn dangos neges 'No Alerts', gan gadarnhau bod y rhestr rybuddion yn wag.

### Cydnabod rhybudd yn Fodd Safonol

Mae Modd Safonol yn ddelfrydol pan fydd dim ond un Notifier+ yn cael eu defnyddio. Mae fwy o wybodaeth ar gael ar dudalen 8. Pwyswch y botwm 'OK' i gydnabod y rhybudd. **Nodyn:** Os mae 'Auto Clear' yn cael eu defnyddio (tudalen 9), mi fydd pwyso 'OK' hefyd yn cydnabod y rhybudd ar unrhyw Notifier arall.

### Cydnabod rhybudd yn Fodd Uwch

Mae Modd Uwch yn fwy addas pan fydd mwy na dau Notifier yn cael eu defnyddio. Mae yna fwy o wybodaeth ar dudalen 8.

- Pwyswch y botwm '**OK**' i gydnabod y rhybudd yn syth.
- Pwyswch y botwm '**Delay**' i ohirio’r rhybudd. Mi fydd y rhybudd mewn ciw ag ail-actifadu ar ôl yr Amser Oedi (Tudalen 8).
- Os mae'r botwm '**Clear**' wedi eu galluogi, pwyswch i glirio rhybudd ni ellir rhoi sylw iddo.

**Nodyn:** Os mae 'Auto Clear' (tudalen 9) yn cael eu defnyddio, mi fydd pwyso '**OK**' yn cydnabod y rhybudd ar unrhyw Notifier arall, tra bod '**Delay**' a '**Clear**' dim ond yn gohirio neu glirio'r rhybudd ar y Notifier yna yn unig.

### ‘Settings’ / PIN ✔️ [NEWYDD] – Nodwedd a gyflwynwyd yn Notifier+

Mae pwyso'r botwm hwn yn agor y ddewislen Gosodiadau. Os yw'r ddewislen Gosodiadau wedi'i diogelu gan PIN, bydd y botwm hwn yn ymddangos fel PIN (gweler tudalen 7). Os caiff y PIN cywir ei roi, bydd y defnyddiwr yn cael mynediad i'r ddewislen Gosodiadau.

## Ddewislen Gosodiadau

Yn y Ddewislen Gosodiadau, mi ellir addasu'r Notifier+ i'ch dewis personol drwy ddefnyddio'r eiconau ar y sgrin.

### 'Screen'

Mi ellir newid disgleirdeb y sgrin ac mae yna opsiwn i'r sgrin fflachio pan mae'n derbyn rhybudd o fewn yr osodiad hwn.
Mae'r opsiwn **'Brightness'** efo 5 osodiad o 1 i 5. Nodwch na'r fwyaf disglair mae'r sgrin, y mwyaf fydd hyn yn cael effaith ar y bywyd batri.
Os mae'r opsiwn **'Strobe'** ymlaen, mi fydd y sgrin yn fflachio pan fydd y Notifier+ yn rhybuddio. Mi ellir troi'r strôb ymlaen/i ffwrdd drwy bwyso'r botwm (botwm gwyn = strôb i ffwrdd, botwm oren = strôb ymlaen).
**Nodyn:** Os mae'r opsiwn strôb ymlaen, mi fydd tôn y rhybudd yn newid.

### 'Away'

**Nodyn:** Mi fydd yr opsiwn yma yn ymddangos os mae 'Away' wedi troi ymlaen pan mae modd 'Divert' wedi eu galluogi yn y Ddewislen Radio, gwelwch dudalen 9.
Mae'r opsiwn 'Away' wedi eu dylunio ar gyfer gofalwyr pan maent yn defnyddio 'Divert' os fydd i ffwrdd o'r Notifier+ am gyfnod o amser. Os mae 'Away' ymlaen ac mae synhwyrydd yn rhybuddio, mi fydd y 'Divert Delay' yn cael eu hanwybyddu ac mi fydd y rhybudd yn cael ei ddargyfeirio o fewn eiliadau. Mi ellir y gofalwyr troi'r opsiwn 'Away' ymlaen yn hawdd pan maent yn gadael, a throi i ffwrdd pan fyddant yn dychwelyd.
Mi ellir troi'r opsiwn 'Away' ymlaen/i ffwrdd drwy bwyso'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).

### 'Sound'

Mae'r **'Volume'** yn mynd o 0 (distaw) i 3 (uchel). Nodyn: Ni ellir distawi synwyryddion sydd wedi eu gosod i donau 5 a 6.
Mi ellir troi'r opsiwn **'Ascend'** ymlaen/i ffwrdd drwy bwyso'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).
**Nodyn:** Mi fydd rhybudd yn cychwyn ar lefel 1 os mae 'Ascend' wedi troi ymlaen.
Mi ellir troi'r opsiwn **'Vibrate"** ymlaen/i ffwrdd drwy bwyso'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen). Ni fydd y dirgrynu yn gweithio tra mae'r Notifier+ yn eu gorsaf wefru.

### 'Time' 🔄 [DIWEDDARWYD] – Nodwedd bresennol wedi'i gwella

Mae'r amser wedi eu harddangos ar y sgrin gartref. Mae o'n bwysig i osod yr amser ar gyfer adrodd digwyddiadau ag wrth ddefnyddio modd 'Activity'. Tapiwch yr eiconau a defnyddiwch y botyma i fynnu/i lawr i setio'r oriau a munudau.
**Nodyn:** Mae'r Notifier+ yn addasu'n awtomatig ar gyfer amser haf. Bydd GMT neu BST yn cael ei ddangos wrth ymyl yr amser ar y sgrin gartref pan fydd yr iaith wedi'i gosod i Saesneg neu Gymraeg.

### 'Date'

Mae'r dyddiad wedi eu harddangos ar y sgrin gartref. Mae o'n bwysig i osod yr amser ar gyfer adrodd digwyddiadau. Tapiwch yr eiconau a defnyddiwch y botyma i fynnu/i lawr i setio'r dydd, mis a blwyddyn.

### 'Alarm Clock'

Mi ellir defnyddio'r Notifier+ fel cloc larwm. Tapiwch y botwm 'On/Off' i droi ymlaen/i ffwrdd (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen), a defnyddiwch y botymau i fynnu/i lawr i osod yr oriau a munudau. Pan mae'r cloc larwm wedi eu galluogi, mi fydd y manylion ar y sgrin gartref.

### 'Admin'

Mae'r botwm yma yn agor i fynnu bysellfwrdd (gwelwch isod). Gallwch gael mynediad i'r Ddewislen Weinyddol (gwelwch dudalen 6) os rhoddoch chi'r PIN cywir.

### Bysellfwrdd

Un o nodwyddau unigryw'r Notifier+ yw'r angen i roi PIN, i sicrhau na fod defnyddwyr heb y PIN yn gallu cael at osodiadau pwysig. I fynd i'r Ddewislen Weinyddol, rowch y PIN i mewn wedi 'Ent'. Mi ddylai defnyddio'r stylus i sicrhau mewnbwn cywir.
Y PIN rhagosodedig yw 1234, mi ellir newid hyn o fewn y Ddewislen Weinyddol.
**ESC** - 'Escape' / **Ent** - 'Enter' / **Sp** - 'Space' / **Bs** - 'Backspace'

### Modd Gosodwr ✔️ [NEWYDD] – Nodwedd a gyflwynwyd yn Notifier+

Mae'r Notifier+ yn cynnwys Modd Gosodwr, sy'n rhoi amser ychwanegol i osodwyr raglennu'r ddyfais. Mae'r modd hwn yn cael ei gyrchu drwy roi PIN arbennig gan ddefnyddio'r bysellfwrdd. Yn Fodd Gosodwr, mae'r sgrin yn aros ymlaen am 10 gwaith yn hirach na'r 'Screen Delay' sydd wedi'i osod (gweler tudalen 8). Er enghraifft, os yw'r oedi sgrin yn 60 eiliad, bydd Modd Gosodwr yn para 600 eiliad. Mae'r modd yn dod i ben yn awtomatig ar ôl y cyfnod hwn, neu os yw'r botwm Ymlaen/Diffodd yn cael ei wasgu am amser fur.
**Nodyn**: Cysylltwch â Cair i gael y PIN Modd Gosodwr. Nid yw'r PIN hwn yn addasadwy.

## Ddewislen Weinyddol

Defnyddiwch y Ddewislen Weinyddol ar gyfer gosodiadau, rheoli dyfeisiau ac opsiynau uwch.

### 'New Device'⚙️ [WEDI'I NEWID] – Addasiad i'r ffordd y mae'r nodwedd yn ymddwyn

Gall y Notifier+ storio hyd at 150 dyfais, gyda phob un wedi'i osod i enw a lleoliad unigryw. Mae'r broses paru yn syml ac yn hawdd ei dilyn, ac mae'n arwain y defnyddiwr drwy bob cam. Cyn dechrau, sicrhewch fod y ddyfais rydych am ei pharu wedi'i pharatoi i drosglwyddo, gan fod rhaid ei hactifadu o fewn 30 eiliad yn gam 2 isod:

1. 'Pair Device'. Pwyswch 'OK' i barhau, neu 'Exit' i adael.
2. 'Activate Device' (actifadu'r ddyfais o fewn 30 eiliad).
3. Os yw'r ID yn gywir, pwyswch 'Yes'. Os nad ydyw, dewiswch 'No' a dechreuwch eto.
4. 'Copy Existing Name?' Os oes enwau wedi'u storio, gellir eu hailddefnyddio. Os nad oes, gellir eu mewnbynnu gan ddefnyddio'r bysellfwrdd.
5. 'Location'. Gellir defnyddio lleoliad sydd wedi'i storio ar gyfer yr enw uchod. Os nad yw ar gael, gellir ei fewnbynnu gan ddefnyddio'r bysellfwrdd.
6. 'Activity On/Off.' Dewiswch alluogi neu analluogi 'Activity' ar gyfer y ddyfais hon (gweler isod). Nodyn: Os yw unrhyw ddyfais gysylltiedig yn defnyddio modd 'Activity', rhaid hefyd galluogi'r botwm 'Inactive/Active' yn y ddewislen Opsiynau.
7. Pan fydd 'Activity' wedi'i alluogi, gallwch osod amseroedd penodol i ddechrau a gorffen monitro. Yn ystod yr oriau hyn, bydd y ddyfais yn actifadu'r Notifier+. Gellir neilltuo amserlen 'Activity' unigryw i bob dyfais.
8. 'Tone Type'. Dewiswch un o chwe tôn. Nodyn: Ni ellir tawelu Tonau 5 a 6, ac ni ddylid eu defnyddio pan fydd 'Activity' wedi'i alluogi. Mae'r tonau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer goruchwylwyr sydd angen sicrhau na ellir tawelu neu anwybyddu rhybuddion.
9. 'Customise Device?' Os dewisir 'No', bydd math y ddyfais yn aros yr un fath â'r ddyfais ac actifadu yng ngham 2. Os dewisir 'Yes', gallwch newid math y ddyfais.
10. 'Device Info'. Dyma grynodeb o'r gosodiadau a ddewiswyd. Tapiwch 'OK' i gwblhau'r broses baru.
11. 'Using Divert? Pair to Device?' Os yw'r opsiwn 'Divert' (gweler tudalen 9) yn cael ei ddefnyddio, tapiwch 'Yes' ar y cam hwn a'i baru gyda'r ddyfais dderbyn. Os nad oes angen 'Divert', pwyswch 'No'.

**Nodyn:** Mae'r derbynnydd yn cael ei ddiffodd ar ôl i ddyfais newydd gael ei derbyn er mwyn helpu gosodwyr i fewnbynnu manylion rhaglennu heb ymyrraeth traffig radio. Mae derbyniad yn cael ei adfer yn awtomatig pan fyddwch yn gadael y ddewislen baru.
**Nodyn:** Os oes gan ddyfais gysylltiedig batri isel, anfonir rhybudd i'r Notifier+ bob 3.5 neu 7 diwrnod, yn dibynnu ar y ddyfais.
**Pwysig**: Pan fydd y nodwedd 'Divert' wedi'i galluogi, bydd pob dyfais sydd wedi'i rhaglennu ac â rhybudd gweithredol yn cael ei hailgyfeirio ar ôl y cyfnod oedi penodedig. Os nad yw synhwyrydd sydd newydd ei raglennu wedi'i ffurfweddu i ailgyfeirio, ni fydd yn trosglwyddo ei rybudd i uned arall; fodd bynnag, bydd y rhybudd ar y Notifier+ yn dod i ben o hyd ar ôl y cyfnod ailgyfeirio. I ddefnyddio'r nodwedd 'Divert', rhaid ei galluogi ar gyfer pob synhwyrydd unigol yn ystod y broses gofrestru, a'i actifadu hefyd yn y ddewislen Radio. Os nad oes angen ailgyfeirio, sicrhewch fod y nodwedd wedi'i hanalluogi.

### 'Activity' 🔄 [DIWEDDARWYD] – Nodwedd bresennol wedi'i gwella

Mae'r nodwedd 'Activity' yn disodli'r swyddogaeth 'Day Mode' wreiddiol. Mae'n caniatáu i'r Notifier+ fonitro dyfeisiau cysylltiedig yn ystod cyfnodau amser diffiniedig, gyda phob dyfais yn gallu gweithredu yn ôl ei hamserlen unigol ei hun.
Wrth gofrestru dyfais newydd, os oes angen defnyddio 'Activity', dewiswch 'On' pan ofynnir i chi a gosodwch yr amseroedd dechrau a gorffen. Yn ystod yr oriau hyn, bydd y ddyfais yn actifadu'r Notifier+. I fonitro dyfais yn barhaus, dewiswch 'Activity Off'.
**Pwysig:** Os yw unrhyw ddyfais gysylltiedig yn defnyddio modd 'Activity', rhaid hefyd alluogi'r botwm 'Inactive/Active' yn y ddewislen Opsiynau.
**Nodyn**: Ni ddylid defnyddio Tonau 5 a 6 gyda dyfeisiau sydd â modd 'Activity' wedi'i alluogi.

## 'Walk Test'

Wrth ddefnyddio'r Notifier+ mewn eiddo mwy, mae'n hanfodol cynnal prawf ystod er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio ar draws y safle. Bydd 'Walk Test' yn gweithio gydag unrhyw ddyfais gydnaws, nid yn unig y rhai sydd wedi'u paru â'r Notifier+.
Pan fydd dyfais yn cael ei hactifadu yn ystod 'Walk Test', bydd y Notifier+ yn gwneud sain a bydd y sgrin yn dangos y wybodaeth ganlynol am y ddyfais:

- 'Signal level' (001 - 255)
- 'Unique decimal identity' (Yr ID sbardun radio)
- 'Unique hexadecimal identity'
- 'Device Type' **Nodyn**: Mi fydd y ddyfais wir yn ymddangos
- 'Battery status'
- 'Repeater number' (mae hyn yn ddefnyddiol pan mae'r Orion yn cael eu defnyddio)

Bydd y botwm 'Reset' yn clirio canlyniadau profion blaenorol o'r sgrin. I adael 'Walk Test', pwyswch yr eicon ymadael. Mae gan holl gynhyrchion Cair ystod estynedig sy'n sicrhau'r pellter gweithio gorau posibl. Fodd bynnag, os yw canlyniad y prawf ystod yn dangos bod yr eiddo yn rhy fawr ar gyfer y Notifier+, rydym yn argymell defnyddio ein hestynnydd pellter gweithio, Orion, sy'n cynyddu ystod pob dyfais hyd at 1km mewn llinell weledol uniongyrchol.
**Pwysig**: Ni ellir derbyn rhybuddion gwirioneddol pan fydd y Notifier+ yn y modd 'Walk Test', ac nid oes swyddogaeth amser darfod (timeout) ar gael.
**Nodyn**: Nid yw actifadiadau 'Walk Test' yn ymddangos yn y Log Digwyddiadau (Event Log).

## 'New PIN' 🔄 [DIWEDDARWYD] – Nodwedd bresennol wedi'i gwella

Gellir newid PIN y defnyddiwr ar gyfer cyrchu'r ddewislen 'Admin' yma. Yn gyntaf, rhowch y PIN presennol, yna rhowch y PIN newydd.
**Nodyn**: Ni ellir newid y PIN dewisol ar gyfer y ddewislen Gosodiadau na'r PIN ar gyfer Modd Gosodwyr.

## 'Mute' (Galluogi/Analluogi)

Os mae'r opsiwn yma wedi eu galluogi (botwm oren = ymlaen), mi fydd botwm 'Mute' yn ymddangos ar y sgrin gartref. Os mae o wedi analluogi (botwm gwyn = i ffwrdd), ni fydd y botwm 'Mute' yn ymddangos ar y sgrin gartref. Mae'r opsiwn yma wedi eu dylunio pan fydd mwy na un Notifier yn cael eu defnyddio ag yn galluogi gofalwyr i droi rhybuddion i ffwrdd ar eu Notifier.
**Nodyn:** Os dim ond un Notifier+ sydd yn cael eu defnyddio ac mae 'Mute' ymlaen, mi fydd y Notifier+ yn anwybyddu pob rhybudd.

## PIN ✔️ [NEWYDD] – Nodwedd a gyflwynwyd yn Notifier+

Mae gan y Notifier+ yr opsiwn i ofyn am PIN i gyrchu'r ddewislen Gosodiadau. Pan fydd yr opsiwn hwn wedi'i alluogi (botwm oren = wedi'i alluogi, botwm gwyn = wedi'i analluogi), mae'r botwm ar y sgrin gartref yn newid o 'Settings' i 'PIN'. Mae'r PIN arbennig hwn yn wahanol i'r PIN 'Admin', a rhaid ei roi i gael mynediad i'r ddewislen Gosodiadau pan fydd wedi'i alluogi.
**Nodyn**: Os oes angen, cysylltwch â Cair i gael y PIN i'r ddewislen Gosodiadau. Nid yw'r PIN hwn yn addasadwy.

## 'History'

- 'View Devices'. Mae'r opsiwn yma wedi eu lleoli yn adran 'History' i sicrhau fod yn anodd golygu neu ddileu dyfais ar ddamwain. Pan mae'r eicon yma yn cael eu tapio, mi fydd y tri synhwyrydd gyntaf sydd wedi eu pario yn cael eu rhestri, defnyddiwch y botwm i lawr i weld y tri nesaf, ac yn y blaen. Tapiwch y synhwyrydd gofynnol i weld y manylion a dewiswch 'Edit' neu 'Delete'.
- 'Event Log'. Mae hanes rhybuddion ar gael ar y sgrin hon. Mi fydd y 964 digwyddiad diwethaf yn cael eu safio ar y Notifier+.

## 'Options'

Mae'r botwm yma yn mynd a chi i'r Ddewislen Opsiynau.

## Ddewislen Opsiynau

Mae'r Ddewislen Opsiynau yn galluogi newidiadau i'r opsiynau uwch o fewn y Notifier+. Mae pob eicon wedi eu hesbonio isod.

### 'Inactive/Active' (Nodwedd Activity) 🔄 [DIWEDDARWYD] – Nodwedd bresennol wedi'i gwella

Mae'r botwm hwn yn caniatáu galluogi'r nodwedd 'Activity' ar draws y Notifier+ cyfan (botwm oren = wedi'i alluogi, botwm gwyn = wedi'i analluogi). Pan fydd wedi'i osod i 'Active', gellir cynnwys neu eithrio dyfeisiau unigol yn ystod amserlen benodol, yn unigryw i bob dyfais, yn seiliedig ar y gwerthoedd a osodwyd yn ystod paru neu wrth olygu'r ddyfais honno.
**Nodyn**: Ni ddylid defnyddio Tonau 5 a 6 gyda dyfeisiau sydd â modd 'Activity' wedi'i alluogi.

### 'Pres' (Auto Presence) ✔️ [NEWYDD] – Nodwedd a gyflwynwyd yn Notifier+

Mae'r botwm hwn yn galluogi neu'n analluogi cofnodi rhybuddion 'Auto Presence' o ddyfeisiau cysylltiedig. Yn ddiofyn, mae rhybuddion 'auto presence' wedi'u hanalluogi. I'w galluogi, dewiswch y botwm 'Pres' (botwm oren = wedi'i alluogi, botwm gwyn = wedi'i analluogi).
**Nodyn**: Nid yw'r rhan fwyaf o ddyfeisiau cyffredin yn defnyddio trosglwyddiad 'Auto Presence'. Os nad ydych yn siŵr, gwiriwch gyda gwneuthurwr y ddyfais.
**Nodyn**: Bydd rhybuddion batri isel yn cael eu derbyn gan y Notifier+' p'un a yw'r nodwedd hon wedi'i galluogi neu wedi'i hanalluogi.
**Nodyn**: Os yw'r nodwedd hon wedi'i galluogi a bod 'Divert' hefyd wedi'i galluogi, bydd rhybuddion 'Auto Presence' yn cael eu hailgyfeirio hefyd..

### 'Language' ✔️ [NEWYDD] – Nodwedd a gyflwynwyd yn Notifier+

Mae gan y Notifier+ sawl opsiwn iaith: Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg, Sbaeneg, Iseldireg a Norwyeg. Mae'r iaith gyfredol yn cael ei nodi gan y botwm oren wedi'i lenwi. Caiff opsiynau iaith eu dewis drwy wasgu'r eicon dymunol. Gellir cyrchu ieithoedd ychwanegol drwy ddefnyddio'r eiconau sgrolio i'r chwith neu i'r dde.
**Nodyn**: Os bydd ailosodiad ffatri yn digwydd, bydd yr iaith yn dychwelyd i'r Saesneg yn ddiofyn.

### 'Screen Delay'

Hyn yw'r cyfnod amser cyn i'r sgrin fynd i fodd gorffwys os heb gael eu defnyddio. Mae yna 5 opsiwn o 30 eiliad hyd at 150 eiliad.
**Nodyn:** Y hirach yw'r amser 'Screen Delay' y mwyaf fydd y bywyd batri yn cael eu heffeithio.

### 'Mode'

Mae'r Notifier+ efo dau opsiwn modd. Mae modd **'Standard'** yn ddelfrydol i sefyllfa le dim ond un Notifier+ sydd yn cael eu defnyddio, tra mha fodd **'Advanced'** yn addas pan fydd mwy na un Notifier+ yn cael eu defnyddio. Pwyswch **'Set Mode'** i ddewis yr opsiwn dymunol.
Yn fodd **'Standard'**, mae rhybudd yn cael eu cydnabod wrth bwyso'r botwm **'OK'**.
Yn fodd **'Advanced'**, mi ellir cydnabod rhybudd wrth bwyso'r botwm 'OK', neu medrith y rhybudd cael eu hoedi, neu glirio (os mae'r botwm 'Clear' wedi eu galluogi).
Os mae'r botwm **'OK'** yn cael eu pwyso, mi fydd y rhybudd yn cael eu cydnabod a chlirio.
Os mae'r botwm **'Delay'** yn cael eu pwyso, mi fydd y rhybudd(ion) yn mynd i mewn i giw a ellir ei weld tu fewn i'r eicon 'Alerts' ar y sgrin gartref (mi fydd yr eicon yma ddim ond yn ymddangos os mae yna rybuddion sydd wedi eu hoedi). Mi fydd rhybudd sydd wedi eu hoedi yn ail-rhybuddio yn awtomatig ar ôl cyfnod o amser (gwelwch 'Alert Delay' isod). Mi ellir oedi hyd at 30 rhybudd ar yr un amser os bydd angen.
Mae'r botwm **'Clear'** wedi eu dylunio ar gyfer gofalwyr sydd ddim yn gallu ymateb i'r rhybudd, a gadael i rywun arall eu cydnabod. Paen mae modd 'Advanced' ymlaen, mi fydd y dewis i arddangos y botwm 'Clear' yn cael eu cynnig (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).

### 'Alert Delay'

Os defnyddio modd 'Advanced' (gwelwch 'Mode' uchod), mae'r 'Alert Delay' y cyfnod o amser cyn mae'r rhybudd yn ail-actifadu. Mae yna 8 opsiwn o 30 eiliad hyd at 240 eiliad.

### 'Radio'

Mae'r botwm yma yn dilyn i'r Ddewislen Radio (gwelwch dudalen 9).

## Ddewislen Radio

Mae'r Ddewislen Radio yn galluogi i chi newid y nodweddion newydd yn y Notifier+. Mae pob eicon wedi eu hesbonio isod.

### 'Divert'

Mae'r nodwedd hon yn dargyfeirio rhybudd os na all gofalwr eu cydnabod. Bydd rhybudd nad yw wedi'i gydnabod yn cael ei ailgyfeirio i system gydnaws arall (e.e. larwm dosbarthedig) ar ôl y cyfnod 'Divert Delay' (gweler isod). Pwyswch y botwm i newid statws 'Divert' (botwm gwyn = wedi'i analluogi, botwm oren = wedi'i alluogi).
Pan fydd wedi'i alluogi, bydd y sgrin yn gofyn: "Do you want to use Away mode?" Mae dewis 'Yes' yn galluogi'r opsiwn 'Away' yn y ddewislen Gosodiadau (gweler tudalen 5).
**Pwysig**: Os yw'r nodwedd 'Divert' wedi'i galluogi, bydd hyn yn achosi i bob dyfais sydd wedi'i rhaglennu ac â rhybudd gweithredol gael ei hailgyfeirio ar ôl y cyfnod 'Divert Delay'.
**Pwysig**: Wrth raglennu dyfais newydd, os nad yw synhwyrydd wedi'i baru â larwm dosbarthedig, ni fydd yn cael ei adnabod gan y ddyfais allanol; fodd bynnag, bydd y rhybudd ar y Notifier+ yn dod i ben o hyd ar ôl y cyfnod 'divert' Felly, os oes angen y nodwedd 'Divert', rhaid gwneud hyn ar gyfer pob synhwyrydd unigol wrth gofrestru, yn ogystal â galluogi 'Divert' yn y ddewislen Radio. Os nad oes angen 'divert', sicrhewch fod y nodwedd wedi'i hanalluogi.
**Nodyn**: Pan fydd wedi'i ailgyfeirio, bydd ID y ddyfais o'r synhwyrydd a actifadwyd yn cael ei addasu er mwyn osgoi gwrthdaro ag ID eraill ar y safle (e.e. bydd pendant gyda ID 123456 yn cael ei ailgyfeirio gyda ID 123556).
**Nodyn**: Bydd y nodwedd hon ond yn gweithio pan fydd y Notifier+ yn gweithredu. Felly, sicrhewch fod y Notifier+ yn cael ei adael ymlaen a bod y batri wedi'i wefru'n ddigonol.

### 'Divert Delay'

Os mae 'Divert' (gwelwch uchod) ymlaen, mi fydd rhybudd yn cael eu dargyfeirio ar ôl yr amser 'Divert Delay'. Mae yna 8 opsiwn ar gael o 30 eiliad hyd at 240 eiliad.

### 'Clone' ⚙️ [WEDI'I NEWID] – Addasiad i'r ffordd y mae'r nodwedd yn ymddwyn

Mae'r nodwedd hon yn caniatáu clonio pob dyfais a gosodiad sydd wedi'i baru o un Notifier+ i un arall (neu i sawl uned) yn ddiwifr. Llywiwch drwy'r dewislenni'n ofalus, gan fod y sgrin yn gallu dod i ben (time out) os caiff ei gadael yn segur.
Ar ôl dewis 'Devices' neu 'Options', dewiswch 'Transmit' ar y Notifier+ sy'n dal y data a 'Receive' ar yr uned(au) sy'n ei dderbyn. Sicrhewch fod 'Receive' wedi'i ddewis cyn dechrau trosglwyddo. Wrth drosglwyddo'r dyfeisiau, bydd y Notifier+ sy'n anfon yn dangos nifer y dyfeisiau, tra bydd yr uned(au) sy'n derbyn yn dangos nifer y rhai sydd wedi'u derbyn. Dim ond dyfeisiau newydd sy'n cael eu cadw; caiff dyblygiadau eu hanwybyddu.
**Pwysig**: Nid yw'n bosibl clonio rhwng y Notifier+ a Notifier safonol. Mae'r Notifier+ yn cynnwys nodweddion nad ydynt ar gael yn y Notifier safonol. Gall ceisio gwneud hyn ymddangos fel pe bai'n gweithio, ond gall arwain at ganlyniadau annisgwyl.

### 'Unit ID' 🔄 [WEDI'I DDIWEDDARU] – Nodwedd bresennol wedi'i gwella

Rhaid i bob Notifier+ mewn system gael 'Unit ID' unigryw pan fydd yn defnyddio: 'Auto Clear', 'SOS' a 'Notifier+ Low Battery'.
Mae'r 'Unit ID' yn sicrhau bod rhybuddion yn cael eu hadnabod yn gywir ac yn cael eu trosglwyddo rhwng Notifiers a dyfeisiau derbyn allanol fel larwm dosbarthedig.
I greu 'Unit ID' unigryw, rhaid rhaglennu dau werth: 'Group ID': 1–4 a 'Unit ID': 1–15
Rhaid i bob 'Unit ID' fod yn unigryw o fewn ei grŵp. Mae'r cyfuniad o 'Group ID' a 'Unit ID' yn darparu hyd at 60 ID Notifier+ unigryw.

### 'Auto Clear'

Mi ellir defnyddio'r opsiwn yma pan fydd yna dwy neu fwy Notifier yn cael eu defnyddio a'i gilydd. Mae'n bosibl troi'r opsiwn 'Auto Clear' ymlaen/i ffwrdd drwy bwyso'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen). Os mae 'Auto Clear' ymlaen ar bob Notifier, pan mae un Notifier yn cydnabod rhybudd, mi fydd yn gyrru signal i bob Notifier arall i glirio i lawr. Mi fydd unrhyw Notifier arall yn dangos rhif o'r Notifier sydd wedi derbyn y rhybudd (gwelwch 'Notifier Identity' isod).
**Nodyn 1:** I 'Auto Clear' weithio, mae rhaid bod bob synhwyrydd wedi eu paru gyda phob Notifier yn y grŵp.
**Nodyn 2:** Os yr ydych yn defnyddio'r nodwedd 'Auto Clear' gyda Orion, byddwch yn ymwybodol na ddylai defnyddio 'incremental mode' ar yr Orion.

## 'SOS' 🔄 [DIWEDDARWYD] – Nodwedd bresennol wedi'i gwella

Mae'r nodwedd 'SOS' yn caniatáu i ofalwr ofyn am gymorth gan Notifier+ eraill sydd wedi'u paru neu ddyfais derbyn allanol fel larwm dosbarthedig. Defnyddiwch y botwm 'SOS' i alluogi neu analluogi'r nodwedd (Gwyn = wedi'i analluogi / Oren = wedi'i alluogi). Pan fydd wedi'i alluogi, bydd botwm SOS mawr yn ymddangos ar y sgrin gartref. Mae pwyso'r botwm SOS yn creu rhybudd ar Notifier+ eraill sydd wedi'u paru neu ar larwm dosbarthedig pan fydd wedi'i baru. **Pwysig**: Yn ystod y broses baru, dylid analluogi 'Divert' ar y Notifier+ sy'n derbyn.

**Rhaglennu 'SOS' i Notifier**

I baru gyda Notifier+ eraill, defnyddiwch y ddewislen 'New Device' ar y Notifier sy'n derbyn.
Pan ofynnir i actifadu'r ddyfais newydd, pwyswch y botwm 'SOS' ar sgrin gartref y Notifier+ sy'n trosglwyddo (unwaith y bydd 'SOS' wedi'i alluogi), yna dilynwch weddill y camau ar gyfer rhaglennu dyfais newydd (gweler tudalen 6).

**Rhaglennu 'SOS' i Larwm Dosbarthedig**

Os mai dim ond un Notifier+ sy'n cael ei ddefnyddio, gellir rhaglennu'r botwm 'SOS' i actifadu larwm dosbarthedig.

- Paratowch y larwm dosbarthedig ar gyfer paru.
- Ar y Notifier+, agorwch y ddewislen 'Radio'.
- Dewiswch yr eicon 'Unit ID'.
- Pwyswch y botwm 'Divert' o fewn y ddewislen 'Unit ID'.
- Bydd y Notifier+ yn dangos 'Auto Divert' ac yn trosglwyddo i'r larwm dosbarthedig.
- Dychwelwch i'r ddewislen 'Radio' a galluogi 'Divert' (Gwyn = wedi'i analluogi / Oren = wedi'i alluogi).
- Pan fydd 'Divert' wedi'i alluogi, gellir anfon rhybuddion 'SOS' ymlaen i'r larwm dosbarthedig yn ystod gweithrediad arferol.

**Nodiadau**

- Gweithrediad SOS gyda *'Divert' wedi'i diffodd* (ar y Notifier+ sy'n trosglwyddo) - Pan fydd 'SOS' yn cael ei bwyso, bydd 'Unit ID' mewnol y Notifier+ yn cael ei drosglwyddo. Bydd Notifier eraill sydd wedi'u paru yn derbyn a dangos y rhybudd 'SOS'. Yna gellir trin y rhybudd fel larwm arferol. Ni chaiff unrhyw signal ei anfon i ddyfais derbyn allanol.
- Gweithrediad 'SOS' gyda 'Divert' *wedi'i alluogi* (ar y Notifier+ sy'n trosglwyddo) - Pan fydd 'SOS' yn cael ei wasgu, bydd 'Unit ID' mewnol y Notifier yn cael ei drosglwyddo yn gyntaf. Bydd Notifier eraill sydd wedi'u paru yn derbyn a dangos y rhybudd 'SOS'. Yna gellir trin y rhybudd ar y Notifier lleol fel larwm arferol, a bydd yn destun ei osodiad 'divert' ei hun. Mae'r Notifier+ hefyd yn anfon trosglwyddiad ar unwaith i ddyfais derbyn allanol, sydd, os yw wedi'i baru â'r Notifier+ hwnnw, yn gallu cysylltu â Chanolfan Derbyn Larwm (ARC).
- Gweithrediad 'SOS' gyda 'Divert' *mewn unrhyw gyflwr* - Ar unrhyw Notifier sy'n derbyn, os yw'r swyddogaeth 'divert' wedi'i galluogi, ac nad yw'r larwm yn cael ei gydnabod, ac ar ôl i'r cyfnod 'divert delay' ddod i ben, bydd y rhybudd 'SOS' yn cael ei anfon ymlaen i ddyfais derbyn allanol, yn yr un modd ag unrhyw fath arall o alwad larwm.

## Rhaglennu Rhybuddion Batri Isel Notifier+ i Larwm Dosbarthedig ✔️ [NEWYDD] – Nodwedd a gyflwynwyd yn Notifier+

Mae'r nodwedd Batri Isel Notifier+ yn caniatáu i'r Notifier+ anfon rhybudd yn awtomatig pan fydd y batri marw. Gellir anfon y rhybuddion hyn i Notifiers eraill sydd wedi'u paru neu i ddyfeisiau derbyn allanol fel larwm dosbarthedig.
Mae'r weithdrefn baru ar gyfer Batri Isel Notifier+ yr un fath â'r un ar gyfer 'SOS' (gweler uchod).
Pan fydd cyflwr Batri Isel Notifier+ yn digwydd, caiff rhybudd ei drosglwyddo ar unwaith i bob Notifier sydd wedi'i baru. Caiff yr oedi dargyfeirio ei osgoi, a chaiff rhybudd ei anfon at ganolfan fonitro drwy ddyfais derbyn allanol. Bydd hyn yn hysbysu'r ganolfan am statws batri'r Notifier.
**Nodyn 1:** Rhaid i 'Divert' fod wedi'i alluogi er mwyn i rybuddion 'Notifier+ Low Battery' gael eu trosglwyddo i ddyfais derbyn allanol.
**Nodyn 2:** Ar ôl i gyflwr 'Notifier+ Low Battery' ddigwydd, rhaid rhoi'r Notifier+ i wefru i ailgychwyn gweithrediad arferol.

## 'Lock' ✔️ [NEWYDD] – Nodwedd a gyflwynwyd yn Notifier+

Mae'r Notifier+ yn gallu cloi'r botwm I ffwrdd/Ymlaen er mwyn atal diffodd y pŵer yn ddamweiniol neu'n fwriadol. I alluogi neu analluogi'r nodwedd hon, defnyddiwch y botwm 'Lock' (botwm oren = wedi'i alluogi, botwm gwyn = wedi'i analluogi).

## Cynnal a Chadw

Mae'r sgrin gartref yn dangos statws y batri: mae'r bar llwyd ar y canol uchaf yn dangos lefel y wefr, ac mae'r eicon ar y dde uchaf yn nodi cryfder y batri. Pan gaiff ei roi yn y sylfaen gwefru, bydd y Notifier+ yn gwneud sŵn o fewn ychydig eiliadau i gadarnhau'r cysylltiad, a bydd y statws yn newid o 'Ready' i 'Charging' os yw'r Notifier+ ymlaen. Bydd y sgrin wedyn yn mynd i 'standby' yn fuan wedyn. Os na fydd hyn yn digwydd, tynnwch y ddyfais allan a'i hailosod. Mae gwefr lawn yn cymryd tua 2.5 awr, ac ar y pwynt hwn bydd yr eicon batri yn llawn. Bydd y Notifier+ hefyd yn gwefru pan fydd wedi'i ddiffodd, ond ni fydd unrhyw arwydd ar y sgrin.
Os yw'r bar statws yn goch ac yn dangos 'Low Battery', dylid gwefru'r Notifier+ cyn gynted â phosibl. Ceisiwch osgoi gadael i'r batri ddraenio'n llwyr, a ffafriwch wefru llawn yn hytrach na gwefru rhannol i ymestyn oes y batri, yn debyg i ofal batri ffôn symudol.

# Datrys Problemau a Chwestiynau Cyffredin

## C1: Pan fod y Notifier+ yn ymddangos fel na yw'n gwefru?

Sicrhewch fod y cyflawnder pŵer a'r USB wedi ei chysylltu ag ymlaen. Sicrhewch fod y Notifier+ ymlaen. Os oedd y batri yn fflat cyn i wefru, mi ellir cymryd dipyn o amser cyn bod o'n bosib troi'r Notifier+ ymlaen i'r sgrin gweithredu a rhoi gwybodaeth gwefru. Os fydden yn parhau i gael problemau efo ail-wefru, cysylltwch â Cair am gymorth bellach. **Nodyn:** Mae'r cyflawnder pŵer wedi eu dylunio yn benodol i weithio efo cylchedau gwefru'n sydyn yn y Notifier+. Sicrhewch na fod unrhyw gyflawnder pŵer arall yn cael eu defnyddio gan ellir hyn achosi problemau.

## C2: Mi ddylai'r Notifier+ wedi eu gwefru yn llawn ond mae'r sgrin yn ddweud 'Not Charging'?

Os mae'r symbol batri yn llawn ag yn arddangos 'Not Charging' mi ddylai tybio fod y Notifier+ wedi eu gwefru yn llawn.

## C3: Pam tydi'r Notifier+ ddim yn rhybuddio pan mha ddyfais sydd wedi eu pario yn actifadu?

Ydi'r Notifier+ ymlaen? Ydi 'Mute' ymlaen? Ydi 'Day Mode' ymlaen? Defnyddiwch nodwedd 'Walk Test' i sicrhau fod y Notifier+ yn gallu derbyn signal gan y dyfeisiau. Sicrhewch fod y ddyfais sydd wedi eu paru yn gweithio hefyd, actifadu dyfais arall os ar gael.

## C4: Pam mae'r sgrin wyneb i waered?

Mae hyn yn nodwedd bwrpasol sydd yn ddefnyddiol pan gwisgo'r Notifier+ o gwmpas y wasg. Tapiwch yr eicon CAIR ar y sgrin gartref i droi'r sgrin wyneb i waered, ag eto i droi yn ôl.

## C5: Pan mae yna bîp a 'Pressure On Screen' yn arddangos?

Mae hyn yn nodwedd bwrpasol i rybuddio fod yna pwysau ar y sgrin.

## C6: Pam tydi'r Notifier+ yn wneud sŵn pan mha rybudd yn cael eu derbyn?

Sicrhewch fod y 'Sound Volume' wedi eu gosod i fwy na 0.

## C7: Pam mae'r Notifier+ yn wneud sŵn pan mae'r gosodiad sŵn i ffwrdd?

Gwiriwch y dôn sydd wedi eu dewis i bob dyfais. Os mae tôn 5 neu 6 wedi eu dewis, ni ellir eu tawelu. Mae hyn yn nodwedd bwrpasol.

## C8: Nid yw'n siŵr os fydd y Notifier+ yn gweithio ar draws yr eiddo cyfan.

Ar gyfer rhan fwyaf o osodiadau, mi ddylai defnyddio 'Walk Test' (gwelwech dudalen 6) i sicrhau fod yr ardal lawn yn cael eu gorchuddio. Tra yn wneud y prawf, mi ddylai actifadu'r synhwyrydd yn yr ardal fydd yn cael eu gosod, e.e. os mae o'n synhwyrydd gwely, actifadu'r synhwyrydd o ardal y gwely.

Os mae'r prawf yn dynodi fod yr eiddo rhy fawr am Notifier+, rydym yn argymell defnyddio ein Orion sydd yn estynnu pellter gweithio ein dyfeisiau.

## Q9: Sut ydw i'n ailosod y Notifier+

Cysylltwch â Cair am fwy o wybodaeth ar sut i ailosod y Notifier+.

## Manylebau

| | |
|---|---|
| **Cydnawsedd** | Amrywiol |
| **Amledd Gweithredu** | 869 MHz / Amrywiol |
| **Maint** | H117 x Ll56 x D14 mm |
| **Pwysau** | 85g |
| **Gwefru** | 2.5 awr / yn para hyd at 2 diwrnod yn dibynnu ar ddefnydd |
| **Pellter Gweithio Ddiwifr** | Hyd at 600m llinell gweledigaeth* |
| **Ymdreiddiad Dŵr** | Yn gwrthsefyll dŵr |
| **Cydymffurfio** | CE / UKCA / RoHS 2 / RED |
| **Gwarant** | 24 mis |

*Gall unedau Notifier+ gyrraedd hyd at 600m mewn amodau llinell weledlad uniongyrchol, ond mae'r pellter gweithio mewn amgylchiadau go iawn yn cael ei leihau gan waliau, inswleiddio, cynllun yr adeilad a rhwystrau eraill. Dylid bob amser gynnal prawf safle gan ddefnyddio'r nodwedd 'Walk Test' ar y Notifier+ i gadarnhau'r pellter gweithio, nodi mannau "cysgod signal".

## Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

## Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Mae'r Notifier yn gwrddsefyll dŵr felly gellir eu defnyddio yn rhan fwyaf o leoliadau ond mi ddylai'r orsaf wefru dim ond cael eu defnyddio mewn lleoliadau sych o dan do

## Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

## Datganiad Cydymffurfiaeth

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Notifier+ yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

UKCA CE

CAIR

**Cair (UK)**
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
**T**: 01422 399155
**inaE**: hello@we-cair.com
**W**: www.we-cair.com